# Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth? Ymchwiliad dilynol i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru

Ymateb Llywodraeth Cymru

Awst 2024

***Argymhelliad 1** – Er mwyn mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog bod ei rhaglenni cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn rhy gymhleth a digyswllt, gan arwain at niferoedd llai na boddhaol yn manteisio arnynt, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:*

***A1(a) –** Cymryd camau pendant i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ei rhaglenni cymorth addysg a gofal plentyndod cynnar, ac adolygu effeithiolrwydd ei ffyrdd cyfredol o hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.*

***A1(b) –** Ymrwymo i grynhoi'r gwahanol ffrydiau cyllido gofal plant yn un ffrwd gyllido, a datblygu cynlluniau i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2025.*

***A1(c) –** Defnyddio systemau presennol fel sail ar gyfer creu 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth gofal plant a gwneud cais am gymorth gofal plant.*

***A1(a) – Cymryd camau pendant i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ei rhaglenni cymorth addysg a gofal plentyndod cynnar, ac adolygu effeithiolrwydd ei ffyrdd cyfredol o hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn.** Mae sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn flaenoriaeth, ac rydym eisoes yn gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd i wneud hyn. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar raglen graidd Dechrau'n Deg yn uchel – cyfradd nodweddiadol o fwy na 85%. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith amlasiantaethol agos sy'n digwydd ar draws y rhaglen, yn ogystal â'r ymgysylltu cynnar â theuluoedd, sy'n un o nodweddion y rhaglen. Mae gan awdurdodau lleol eu prosesau eu hunain ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd Dechrau'n Deg, ac mae ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn darparu cymorth parhaus i deuluoedd o enedigaeth plentyn, gan weithredu'n aml fel porth i'r rhaglen ehangach o gymorth a gynigir gan Dechrau'n Deg.

Dechreuodd cam 2 y cynllun i ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg yn 2023/24. Mae'n rhy gynnar i ddarparu'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, ond gwyddom fod llawer o awdurdodau lleol yn datblygu dulliau effeithiol ac arloesol o nodi teuluoedd cymwys a chyfathrebu â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu cytundebau rhannu data â byrddau iechyd lleol, gan ddefnyddio ymgyrchoedd cyfathrebu i roi gwybod i deuluoedd am y ddarpariaeth newydd a datblygu pyrth gwneud cais ar-lein y gall teuluoedd eu defnyddio i wneud cais am y ddarpariaeth gofal plant newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol (**Canllawiau Statudol Gofal Plant**, a ddiwygiwyd ym mis Awst 2016), sy'n nodi sut y dylid darparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni am ofal plant. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni a theuluoedd am amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol, ac yn eu cyfeirio atynt. Mae gan bob un ohonynt brofiad o gyfeirio rhieni at wasanaethau a all eu helpu i ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn dibynnu ar eu hamgylchiadau teuluol, gan gynnwys gofal plant, costau gofal plant, rhaglenni teuluoedd, iechyd, materion ariannol a hamdden. Gellir hefyd gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drwy **Teulu Cymru**, a lansiwyd ym mis Ebrill 2024. Mae Teulu Cymru yn galluogi rhieni a theuluoedd i gael cymorth a chyngor ar bolisïau allweddol y Llywodraeth mewn un lle. Mae perfformiad cynnar wrthi'n cael ei adolygu er mwyn cefnogi twf a datblygiad brand Teulu Cymru, yn ogystal ag ehangu ei gynnwys fel y bo'n berthnasol ac ar sail tystiolaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am Teulu Cymru yn ein hymateb i argymhelliad 1c.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â chonsortiwm gofal plant Cwlwm ac yn darparu cyllid iddo. Un o'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cwlwm yw cynnal gweithgareddau i sicrhau bod mwy o leoliadau'n dod yn gynaliadwy yn ariannol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y llyfryn 'Dewis Gofal Plant' yn cael ei ddiweddaru a'i hyrwyddo bob blwyddyn i hyrwyddo gofal plant.

Cyflwynwyd ein system weinyddu ddigidol ar gyfer y cynnig gofal plant ym mis Ionawr 2023 ac o'r pwynt hwn, drwy'r system hon y caiff y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant eu monitro. Yn ogystal â'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r Cynnig Gofal Plant i rieni sy'n gweithio cymwys plant tair a phedair oed yng Nghymru, mae addysg feithrin hefyd yn rhan o'r cynnig. Mae addysg feithrin ar gael i bob plentyn tair a phedair oed, fel arfer yn ystod y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, gan ddibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn. Yn yr un modd â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, mae awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth am y broses fynediad.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***A1(b) – Ymrwymo i grynhoi'r gwahanol ffrydiau cyllido gofal plant yn un ffrwd gyllido, a datblygu cynlluniau i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2025.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Fel y nodwyd yn ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, byddwn yn parhau i wella gwaith partneriaeth a sicrhau dull gweithredu mwy integredig, cydlynol a chyson ar draws pob ysgol a darparwr gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin i bob plentyn 0-5 oed.

Rydym yn cydnabod y ddelfryd o gael un ffrwd gyllido ar gyfer gofal plant ac addysg feithrin a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg. Drwy'r Grant Cynnal Refeniw y darperir cyllid ar gyfer addysg feithrin yn bennaf, fel rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i glustnodi, a mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut y byddant yn cynllunio ac yn darparu addysg feithrin i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Darperir cyllid ychwanegol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol hefyd er mwyn helpu i ddarparu addysg feithrin/gofal plant yn gyson mewn lleoliadau ac yn ehangach ar draws addysg gynnar.

At hynny, caiff ein darpariaeth gofal plant a ariennir drwy Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant eu comisiynu a'u hariannu ar delerau ac amodau gwahanol.

Oherwydd cymhlethdodau'r gwahanol ffrydiau cyllido a meini prawf cymhwystra, byddai'n anodd eu cyfuno heb gost ychwanegol a phwysau llwyth gwaith sylweddol, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw hynny'n ddichonadwy ar gyfer y sector ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac os bydd symleiddio unrhyw un o'r ffrydiau cyllido gwahanol yn ddichonadwy o fewn yr adnoddau presennol, byddwn yn ystyried gwneud hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***A1(c) – Defnyddio systemau presennol fel sail ar gyfer creu 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth gofal plant a gwneud cais am gymorth gofal plant.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybodaeth glir a hygyrch i rieni a theuluoedd am ofal plant.

Mae ymgyrch teuluoedd a rhieni newydd Llywodraeth Cymru, Teulu Cymru, yma i rieni, gofalwyr a theuluoedd plant 0-18 oed, i'w cyfeirio i'r man cywir ar gyfer gwahanol ffynonellau o gymorth ymarferol ac ariannol Llywodraeth Cymru. O awgrymiadau ar fagu plant a chyngor arbenigol ar ddatblygiad, i help gyda chostau gofal plant.

Darpariaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yw Teulu Cymru yn bennaf, gyda thudalen lanio ar brif wefan Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiect ei gynhyrchu ar y cyd gan bartneriaid mewnol ac allanol ac, yn bwysig iawn, mae'r cynnwys yn seiliedig ar sylwadau gan rieni am yr wybodaeth y maent am ei chael gan Lywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cwlwm ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i sicrhau bod gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant i rieni yn rhan o amrywiaeth o ddeunyddiau cymorth i deuluoedd.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 1(a), mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor a gwybodaeth i deuluoedd am amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol, ac yn eu cyfeirio atynt.

Mae gan raglen Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru amcanion polisi, dulliau gweithredu a meini prawf cymhwystra gwahanol. O ystyried ffocws a meini prawf gwahanol y rhaglenni, nid oes cynlluniau i greu gwasanaeth gwneud cais integredig ar hyn o bryd. Byddai creu gwasanaeth o'r fath yn dipyn o dasg a byddai'n arwain at oblygiadau ariannol mawr nad ydynt wedi'u hystyried yn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac os bydd datblygu gwasanaeth gwneud cais integredig yn ddichonadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael, byddwn yn ystyried gwneud hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***Argymhelliad 2***

*O fewn y chwe mis nesaf, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer ei Chynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd y camau angenrheidiol i fodloni uchelgeisiau'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Dylai'r cynllun cyflawni amlinellu camau gweithredu clir gydag amserlen ar eu cyfer, sy'n canolbwyntio ar ddarparu system chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar symlach a mwy integredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ogystal â'r meysydd presennol sy'n cael eu cwmpasu gan y cynllun mewn perthynas â'r gweithlu, ansawdd a mynediad.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Mae'r plentyn a diwallu ei anghenion datblygu wrth wraidd ein hymagwedd at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae'n cefnogi ein polisïau a'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodi'r hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon (Mai 2026).

Mae'r cynllun yn ddogfen fyw. Fel rhan o'n dull i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn hyblyg, drwy ei addasu wrth i'n polisïau ddatblygu, rydym wedi nodi proses i sicrhau ein bod yn adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun. Bydd gwaith yn dechrau yn ystod yr hydref, tua chwe mis ar ôl i'r cynllun gael ei gyhoeddi, i nodi pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun. Bydd y broses hon hefyd yn digwydd naw mis ar ôl i'r cynllun gael ei gyhoeddi, a bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddatblygu ffeithlun, i'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025, yn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun a'r camau nesaf. Caiff ei hailadrodd hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon, a chaiff ffeithlun yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd hynny ei gyhoeddi bob blwyddyn.

Byddwn hefyd yn casglu data ac yn gwneud gwaith ymchwil i fonitro a yw'r rhaglenni yn cael eu darparu'n effeithiol ac a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar ddarparu system Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n canolbwyntio ar y plentyn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data monitro manwl ar raglenni Cynnig Gofal Plant Cymru a Dechrau'n Deg. Caiff data a gesglir trwy Arolygiaeth Gofal Cymru, gan gynnwys data ar nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig a'u capasiti, a nodweddion y gwasanaethau hyn, eu **cyhoeddi** fel mater o drefn ac fe'u defnyddir i fonitro a gwerthuso. Yn ogystal, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu data ar gwblhau'r cymwysterau prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae eu rôl yn cynnwys sicrhau ansawdd y dystiolaeth a ddarperir i sicrhau ei bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer dyfarnu tystysgrifau cwblhau.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

***Argymhelliad 3***

*Er mwyn gwella cyflog ac amodau gwaith ehangach yn y sector gofal plant, a chynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig, dylai Llywodraeth Cymru:*

***A3(a) –*** *Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn cael digon o gyllid i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff a gyflogir yn y sector gofal plant, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025.*

***A3(b) –*** *Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gefnogi'r sector i wella amodau gwaith ehangach a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor gydag enghreifftiau clir o sut y mae'r rhain wedi gwella mewn 12 mis.*

***A3(c) –*** *Blaenoriaethu cynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig o fewn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys dulliau newydd o gyflawni hyn, tra'n cadw hefyd y llwybrau galwedigaethol traddodiadol i'r sector. Dylai hefyd gymryd camau i symleiddio gofynion cymwysterau.*

***A3(d) –*** *Bwrw ymlaen â'i chynlluniau i fynnu bod y gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei gofrestru, gyda'r nod o gyflwyno cofrestru cyn diwedd y Chweched Senedd.*

***A3(a) – Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn cael digon o gyllid i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff a gyflogir yn y sector gofal plant, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfraddau cyflog yn y sector gofal plant a gwaith chwarae, gan mai sefydliadau yn y trydydd sector neu'r sector preifat yw'r rhan fwyaf o leoliadau, gyda phwyllgorau gwirfoddol a pherchnogion busnes yn gyfrifol am bennu cyflogau ac amodau.

Fodd bynnag, rydym wedi ceisio cefnogi lleoliadau i allu cynnig cyfraddau cyflog rhesymol drwy leihau gorbenion. Rydym wedi gwneud hyn drwy ymestyn rhyddhad ardrethi busnes o 100% i safleoedd gofal plant cofrestredig tan 31 Mawrth 2025, a fydd yn darparu tua £3.4m o gymorth ychwanegol i safleoedd gofal plant cofrestredig bob blwyddyn.

Mae cyfradd yr awr y Cynnig Gofal Plant wrthi'n cael ei hadolygu. Mae arolwg o leoliadau gofal plant yn ystyried eu costau a'u gwariant yn rhan allweddol o'r adolygiad hwn. Byddai unrhyw newidiadau i'r gyfradd bresennol o £5.00 yr awr fesul plentyn yn weithredol o fis Ebrill 2025. Caiff y newid hwn ei gyhoeddi yn unol â chytuno ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025.

Er mai'r bwriad yw y bydd unrhyw gynnydd yng nghyfradd yr awr y Cynnig Gofal Plant yn helpu i gefnogi hyfywedd ariannol lleoliadau gofal plant, ni ellir gwarantu y bydd yn arwain at gynnydd yng nghyflogau gweithwyr gofal plant. Ni all Llywodraeth Cymru ragnodi hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae'r cyllidebau presennol yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes tan 31 Mawrth 2025. Byddai unrhyw gynnydd yng nghyfradd yr awr y Cynnig Gofal Plant yn arwain at oblygiadau ariannol. Byddai angen i'r Gweinidogion ystyried unrhyw gynnydd fel rhan o drefniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26.

***A3(b) – Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gefnogi'r sector i wella amodau gwaith ehangach a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor gydag enghreifftiau clir o sut y mae'r rhain wedi gwella mewn 12 mis.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi cydweithio â rhanddeiliaid yn y sector gofal plant, gan lunio polisïau ac ymyriadau ar y cyd, gan gynnwys: y Cynnig Gofal Plant; ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg; a rhoi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Rydym yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Cwlwm, sef consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae, ac rydym wedi gweithio i gryfhau'r ymgysylltu a'r cydberthnasau gwaith ag undebau llafur, gan eu gwahodd i gyfrannu at nifer o adolygiadau o bolisïau allweddol, gweithgorau a phenderfyniadau rhanddeiliaid eraill.

Fel y nodwyd yn **Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar: adolygiad a diweddariad** , a gyhoeddwyd yn ddiweddar, byddwn yn sefydlu Fforwm Gwaith Teg Partneriaeth Gymdeithasol Gofal Plant a Gwaith Chwarae a fydd yn ystyried materion allweddol ar gyfer y gweithlu, fel recriwtio, cadw, datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa. Nod y Fforwm fydd gweithio gyda chyrff ambarél gofal plant a gwaith chwarae, awdurdodau lleol fel comisiynwyr gwasanaethau gofal plant, ac undebau llafur i ystyried y camau nesaf y gellir eu cymryd i ddatblygu ymarfer gwaith teg ym mhob rhan o'r sector.

Rydym yn annog lleoliadau i greu gweithleoedd sy'n helpu i ddatblygu diwylliannau gweithle cadarnhaol a chynhwysol ac yn hybu llesiant y bobl sy'n gweithio ynddynt. Rydym yn darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd wedi datblygu **fframwaith iechyd a llesiant** i gefnogi egwyddorion gwaith teg allweddol fel pwysigrwydd llais y gweithiwr ac urddas a pharch i bawb.

Nod y rhaglen Hyfforddiant a Chymorth yw helpu ymarferwyr i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac uwchsgilio. Darperir cyllid drwy'r Grant Plant a Chymunedau i awdurdodau lleol i gefnogi amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer lleoliadau gofal plant, o hyfforddiant gorfodol i hyfforddiant ar ymarfer effeithiol, i'w bennu gan awdurdodau lleol ac ar sail angen lleol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i bartneriaid allweddol fel Gofal Cymdeithasol Cymru, Cwlwm a Chwarae Cymru, sy'n darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfleoedd DPP er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu yn barhaus.

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd, gan gynnwys y meysydd gwaith rydym yn mynd ar eu trywydd, ymhen blwyddyn.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

***A3(c) – Blaenoriaethu cynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig o fewn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys dulliau newydd o gyflawni hyn, tra'n cadw hefyd y llwybrau galwedigaethol traddodiadol i'r sector. Dylai hefyd gymryd camau i symleiddio gofynion cymwysterau.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi'r rheini sy'n meddu ar raddau i ymuno â'r sector, ond er mwyn cydnabod y materion presennol a wynebir o ran recriwtio, bu'r ffocws ar hyrwyddo'r cymwysterau gofal plant presennol ar lefel 3 a 5 a darparu hyblygrwydd i gefnogi'r broses o'u hennill. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i ddarparu safon ansawdd uchel gydnabyddedig a chyson, yn ogystal â llwybrau cliriach i'r rhai sydd am symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae'r cymwysterau'n ymgorffori egwyddorion dysgu allweddol y blynyddoedd cynnar, ac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan barchu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bu rhanddeiliaid allweddol y sector, gan gynnwys Cwlwm a Chwarae Cymru, yn cynorthwyo Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wrth ddatblygu'r cymwysterau ac maent wedi eu hyrwyddo'n eang ar draws y sector. Rydym hefyd yn ceisio gwella cymwysterau gofal plant yn barhaus a sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Er enghraifft, mae ystod o unedau ychwanegol newydd bellach wedi'u hychwanegu at y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster Ymarfer. Datblygwyd yr unedau newydd yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r sector ac mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Diwygiwyd y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig** yn 2023 er mwyn galluogi ymarferwyr sy'n 'gweithio tuag at gymhwyster' i gael eu cydnabod fel ymarferwyr cymwysedig.

Rydym yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ystyried y potensial ar gyfer dyfarniadau atodol i gydnabod dysgu blaenorol i'r rheini sydd â phrofiad a sgiliau perthnasol ond nad ydynt yn meddu ar gymhwyster gofal plant sydd wedi'i restru ar fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i alluogi'r rheini sy'n meddu ar raddau sydd â statws ymarferydd blynyddoedd cynnar i fod yn gymwys i wneud cais am **rolau arwain mewn lleoliadau Dechrau'n Deg**. Fodd bynnag, mae nifer o gymwysterau gradd nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd ar gyfer rolau arwain mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a bydd gwaith i ddatblygu dyfarniadau atodol yn helpu i oresgyn hyn, gan gefnogi mwy o raddedigion i weithio fel arweinwyr mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ac ar draws y sector. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweithio gyda lleoliadau ledled Cymru i'w hannog a'u cefnogi i gynnig lleoliadau gwaith i'r rheini sy'n astudio ar gyfer cymwysterau mewn addysg bellach ac addysg uwch.

Er nad oes cynlluniau i newid y gofynion o ran cymwysterau i sicrhau gweithlu a arweinir gan raddedigion bydd y Fforwm Gwaith Teg  yn ystyried sut i ddenu'r rheini sy'n meddu ar y sgiliau perthnasol i'r gweithlu.

**Goblygiadau Ariannol** – bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynd ar drywydd y gwaith hwn o fewn ei gyllid, y cytunir arno bob blwyddyn.

***A3(d) – Bwrw ymlaen â'i chynlluniau i fynnu bod y gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei gofrestru, gyda'r nod o gyflwyno cofrestru cyn diwedd y Chweched Senedd.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector i ystyried opsiynau ar gyfer cofrestriad proffesiynol, ond ni allwn ymrwymo i gyflwyno cofrestr cyn diwedd y Chweched Senedd.

Cymysg yw'r farn ymysg y sector ynghylch a ddylid cyflwyno cofrestr gofal plant a chwarae. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyflwyno cofrestriad proffesiynol yn y sector gofal plant a chwarae rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn y sector ynghylch yr egwyddor o gael cofrestr gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Roedd yn amlwg o'r ymatebion a gafwyd fod pryderon yn bodoli hyd yn oed lle roedd cefnogaeth i gyflwyno cofrestr.

O ystyried y pryderon a godwyd gan y sector, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector i ystyried y ffordd fwyaf priodol ymlaen mewn perthynas â chofrestriad proffesiynol ar gyfer gofal plant a chwarae.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol

***Argymhelliad 4***
*Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i fynd i'r afael â'r risg y bydd ei chynlluniau cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn gwaethygu anghydraddoldebau sy'n wynebu plant sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn gweithio drwy:*

***A4(a) –*** *Ymestyn darpariaeth a ariennir ar gyfer pob plentyn 3-4 oed wrth ehangu unrhyw ofal plant yn y dyfodol, yn hytrach nag eithrio plant o deuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyflogaeth ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.*

***A4(b) –*** *Ystyried ai'r meini prawf cymhwystra presennol y gall rhieni ennill hyd at £100,000 yr un yw'r terfyn uchaf cywir o ran cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.*

***A4(c) –*** *Cymryd camau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn targedu ardaloedd mwy difreintiedig i ddechrau wrth ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.*

***A4(a) – Ymestyn darpariaeth a ariennir ar gyfer pob plentyn 3-4 oed wrth ehangu unrhyw ofal plant yn y dyfodol, yn hytrach nag eithrio plant o deuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyflogaeth ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Gwrthod.** O fewn terfynau ein strategaeth fuddsoddi bresennol, y flaenoriaeth ar gyfer ehangu gofal plant yn y dyfodol yw cyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu, gan gynnig gofal plant i bob plentyn 2 oed trwy ein Rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw. Bydd hyn yn golygu y gall 9,500 yn ychwanegol o blant dwy oed ledled Cymru fanteisio ar ofal plant o safon Dechrau'n Deg rhwng 2023-24 a 2024-25. Gwyddom o dystiolaeth werthuso annibynnol bod y rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn yn ogystal â gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain fel rhieni.

Ar ben hynny, ym mis Medi 2022, ehangodd Llywodraeth Cymru y Cynnig Gofal Plant i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant, gan gefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn ein Rhaglen Lywodraethu. Yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi hynny, cafodd 675 o deuluoedd ychwanegol eu cefnogi drwy'r Cynnig.

Mae helpu rhieni mewn addysg a hyfforddiant i dalu costau gofal plant yn golygu y gall mwy o deuluoedd, a menywod yn arbennig, fanteisio ar ragolygon cyflogaeth gwell ac mae'n adlewyrchu'r gwerth rydym yn ei roi ar gefnogi'r rheini sy'n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybrau gyrfa.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***A4(b) – Ystyried ai'r meini prawf cymhwystra presennol y gall rhieni ennill hyd at £100,000 yr un yw'r terfyn uchaf cywir o ran cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Gwrthod.** Nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r trothwy enillion ar hyn o bryd gan mai bach iawn fyddai'r effaith ar y gyllideb gyffredinol sydd ar gael ar gyfer y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus wrth i fwy o ddata a gwybodaeth ddod ar gael. Mae'n werth nodi bod yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu mai niferoedd cymharol isel fyddai'n manteisio ar y cynnig gofal plant tuag at ben uchaf y trothwy hwn.

Er mwyn rhoi rhagor o gefndir, caiff costau darparu Cynnig Gofal Plant Cymru eu modelu cyn pob blwyddyn ariannol er mwyn llywio trafodaethau ynghylch y gyllideb. Mae'r dull modelu hwn yn defnyddio amcangyfrif o'r boblogaeth gymwys, yn seiliedig ar ddadansoddiad o Arolwg Blynyddol SYG o'r Boblogaeth. Awgrymodd Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn Pump (Medi 2021 i Awst 2022), a gyhoeddwyd yn 2023 [1], mai dim ond 6% o'r rhieni hynny a oedd yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru oedd yn ennill uwchlaw'r trothwy o £52,000 y flwyddyn a bod o leiaf 54% o'r rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ennill llai na'r cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol i weithwyr llawnamser. Roedd 26% o'r rhieni yn ennill llai na 15,600.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***A4(c) – Cymryd camau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn targedu ardaloedd mwy difreintiedig i ddechrau wrth ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn.** Mae rhaglen gyfan Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar gefnogi'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn dwy oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol wedi cael eu hannog i ddefnyddio data budd-daliadau incwm a ddarperir gan CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau i benderfynu sut i flaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau Dechrau'n Deg ledled Cymru, er y bu rhywfaint o hyblygrwydd iddynt wyro oddi wrth hyn gan ddefnyddio gwybodaeth leol.

Mae'r dull o dargedu ehangu gwasanaethau yng Ngham 2 yn adeiladu ar y dull hwn ac mae canllawiau ehangu Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r broses o gyflwyno Cam 2 y cynllun i ehangu gwasanaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig eu hawdurdod lleol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi seilio cynlluniau ehangu lleol ar y data hyn sy'n gosod ardaloedd yn eu trefn o ran amddifadedd ar lefel ardal gynnyrch ehangach is. Mewn llawer o achosion, mae awdurdodau lleol wedi ceisio ehangu gwasanaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ar y rhestr heb ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, lle mae hyn yn ymarferol.

Nod y cyfarwyddyd hwn, a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, yw sicrhau bod y cymorth a ddarperir i blant a theuluoedd drwy ehangu Dechrau'n Deg yn cael ei gynnig i'r rhai mwyaf anghenus yn y lle cyntaf. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno eu cynlluniau ehangu i swyddogion Llywodraeth Cymru graffu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y dull gweithredu a nodwyd yn y canllawiau. Drwy ganolbwyntio ein hadnoddau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn y lle cyntaf, rydym yn sicrhau bod y cymorth yn cyrraedd y teuluoedd mwyaf anghenus cyn gynted â phosibl.

Erbyn diwedd 2024-25, byddem yn disgwyl cyrraedd tua 60% o'r holl blant 2 oed yng Nghymru gan gynnig darpariaeth lawn Dechrau'n Deg (drwy raglen graidd Dechrau'n Deg a Cham 1) neu 12.5 awr o ofal plant Dechrau'n Deg yr wythnos (drwy Gam 2).

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

***Argymhelliad 5 –*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth frys, yn cymryd camau i sicrhau bod digon o leoedd a chyllid ar gael i bob plentyn ag anghenion ychwanegol neu gymhleth drwy:*

***A5(a) –*** *Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector i ganfod amserlenni realistig ar gyfer gwarantu y bydd plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant, ac ymrwymo i ariannu a gweithredu'r warant honno.*

***A5(b) –*** *Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o ffrydiau cyllido i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac i leihau cymhlethdod cael gafael ar y cronfeydd hyn.*

***A5(c) –*** *Derbyn a gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â gofal plant yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 'A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'.*

***A5(a) – Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector i ganfod amserlenni realistig ar gyfer gwarantu y bydd plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant, ac ymrwymo i ariannu a gweithredu'r warant honno.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod darpariaeth gofal plant ddigonol ar gael er mwyn helpu rhieni i weithio neu hyfforddi. Maent yn defnyddio Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant i asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn eu hardal. Fel rhan o'r broses asesu hon, rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion rhieni sydd â phlant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth. Fodd bynnag, gan mai unigolion neu fusnesau preifat sy'n darparu gofal plant yn bennaf, mae awdurdodau lleol yn gyfyngedig o ran eu gallu i warantu y bydd plant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth yn gallu manteisio ar ddarpariaeth gofal plant.

Cynhelir Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd, a chynhaliwyd yr asesiad diweddaraf yn 2022. Fel rhan o'r asesiad, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi'r rhwystrau i gael darpariaeth gofal plant a wynebir gan deuluoedd sydd â phlant ag anghenion ychwanegol. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd lunio cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i wella cyfleoedd i blant fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu gofal plant digonol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy elfen gofal plant a chwarae'r Grant Plant a Chymunedau. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn eu hasesiadau o ddigonolrwydd gofal plant i ddarparu gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni. Gallant hefyd ddefnyddio'r grant i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn eu hasesiadau o ddigonolrwydd gofal plant sy'n berthnasol i ddarpariaeth chwarae wedi'i staffio.

Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig i blant 3 a 4 oed yn cynnwys plant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, mae help wedi'i neilltuo ar ffurf ffrwd gyllido ar wahân – Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae'r Cynnig wedi'i lunio mewn ffordd sy'n ystyried y rhwystrau y gall rhieni cymwys eu hwynebu i fanteisio ar yr elfen gofal plant yn benodol, gan gynnwys y rheini sydd â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), anableddau dysgu neu anableddau neu anghenion iechyd eraill y mae angen cymorth ychwanegol ar eu cyfer.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

Er mwyn cryfhau a chefnogi'r seilwaith gofal plant, amcanion allweddol Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yw cynnal a gwella lleoliadau gofal plant presennol a rhai newydd. Gall darparwyr gofal plant eraill sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru wneud cais i'w hawdurdod lleol am gyllid grantiau bach (hyd at £20k) y gellir ei ddefnyddio i brynu cyfarpar ADY/Synhwyraidd er mwyn helpu i oresgyn y rhwystrau i gynnig darpariaeth hygyrch. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais am gyllid cyfalaf mawr, un o'r elfennau allweddol a ystyrir fel rhan o'r broses o graffu ar yr achos busnes yw p'un a yw hygyrchedd yr adeilad/darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i ystyried.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfarfod ag arweinydd rhwydwaith Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar a thimau Dechrau'n Deg. Maent wedi nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â'r ffordd y mae lleoliadau nas cynhelir yn cael adnoddau ychwanegol i gefnogi anghenion sy'n dod i'r amlwg a'r anghenion hynny a nodwyd mewn Cynlluniau Datblygu Unigol. Rydym wrthi'n ymgynghori â chydweithwyr ADY i bennu'r camau nesaf.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

***A5(b) – Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o ffrydiau cyllido i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac i leihau cymhlethdod cael gafael ar y cronfeydd hyn.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi **canllawiau statudol** i awdurdodau lleol yn nodi sut y dylid darparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni drwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni a theuluoedd am amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol, ac yn eu cyfeirio atynt, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â gofal plant a chostau gofal plant. Mae'r llyfryn ‘Dewis Gofal Plant’ yn nodi sut y gall rhieni ddod o hyd i ofal plant addas.

Mae ein Cynnig Gofal Plant wedi'i lunio mewn ffordd sy'n ystyried y rhwystrau y gall rhieni cymwys eu hwynebu i fanteisio ar yr elfen gofal plant, yn enwedig y rheini sydd â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol, gan gynnwys anableddau dysgu, corfforol a synhwyraidd. Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn cynnwys plant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, mae help wedi'i neilltuo ar ffurf ffrwd gyllido ar wahân, sef Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru, y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio.

Tynnir sylw rhieni plant sy'n cael y Cynnig Gofal Plant at argaeledd y Grant Cymorth Ychwanegol o fewn y llwyfan digidol y mae teuluoedd yn ei ddefnyddio i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant. Gofynnir iddynt gysylltu â'u hawdurdod lleol os ydynt o'r farn y byddai eu plentyn yn cael budd o'r Grant Cymorth Ychwanegol.

Fel rhan o'r gwaith parhaus i ddatblygu llwyfan digidol y Cynnig Gofal Plant, rydym wrthi'n datblygu datrysiad lle y gall rhieni hysbysu eu hawdurdod lleol amdanynt eu hunain. Yn dilyn yr hysbysiad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â'r rhiant i drafod ei ofyniad a sut y gall fanteisio ar y cymorth hwn. Rydym yn disgwyl i'r swyddogaeth hon gael ei rhyddhau yn ystod yr hydref eleni.

Mae gennym nifer o raglenni sy'n wahanol ac sy'n ategu ei gilydd i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru a'n rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'n amlwg o systemau adrodd awdurdodau lleol fod cysondeb a gwaith cydweithredol da rhwng Timau Cynghori Gofal Plant Dechrau'n Deg sy'n cefnogi lleoliadau a Swyddogion Arwain Anghenion Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar awdurdodau lleol ledled Cymru. Ceir hefyd drefniadau pontio da i gefnogi plant ag ADY sy'n symud i ofal plant Dechrau'n Deg ac oddi yno pan fyddant yn dod yn gymwys i gael addysg y blynyddoedd cynnar yn dair oed.

Mae ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg wedi cynyddu nifer y plant dwy oed a all fanteisio ar ofal plant a ariennir o safon, sydd wedi creu cyfleoedd i blant gael cymorth ar gyfer ADY cyn iddynt ddechrau addysg y blynyddoedd cynnar yn dair oed.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd angen i unrhyw benderfyniadau am gyllid yn y dyfodol gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol.

***A5(c) – Derbyn a gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â gofal plant yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 'A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Derbyn mewn Egwyddor. Rydym wedi ystyried yr argymhellion sy'n ymwneud â gofal plant yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?', ac wedi ymateb iddynt ar wahân.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd angen i unrhyw benderfyniadau am gyllid yn y dyfodol gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol.

***Argymhelliad 6***

*Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gynyddu nifer yr ymarferwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg, a chyfleoedd i ymarferwyr gymhwyso drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai wneud hyn drwy ddarparu cyllid digonol i alluogi 300 o staff newydd i gymhwyso bob blwyddyn, a gweithio gyda darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn Egwyddor.** Erys ein hymrwymiad i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae cyfrwng Cymraeg yn gryf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £3.78m dros dair blynedd (2022-2025) i gefnogi gweithgareddau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyllid i Mudiad Meithrin i gefnogi 150 o ddysgwyr i ennill eu cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant Lefel 3 a Lefel 5 drwy gyfrwng y Gymraeg drwy Raglen Cam wrth Gam. Yn ogystal â chyllid ychwanegol i gefnogi *Croesi'r Bont*, sy'n cynnig cymorth iaith i leoliadau newydd a sefydlwyd o dan raglen *Sefydlu a Symud* a lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n awyddus i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu wella eu darpariaeth bresennol, rydym wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ei chyrsiau *Camau*, sef cyrsiau Cymraeg pwrpasol i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd yn ariannu cydlynydd i gefnogi'r cyrsiau hyn a'r dysgwyr sy'n eu dilyn er mwyn meithrin eu sgiliau Cymraeg a'u hyder a gwneud y defnydd gorau o'u Cymraeg mewn lleoliadau gofal plant.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth o fathau o leoliadau drwy ariannu swyddogion datblygu sy'n gweithio gyda lleoliadau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg neu newid eu hiaith weithredu i'r Gymraeg a chydlynu'r hyfforddiant cyfrwng Cymraeg penodol a ddarperir i staff presennol. Rydym hefyd wedi darparu cyllid i gefnogi gwarchodwyr plant sy'n ceisio cynnig darpariaeth Gymraeg yn ogystal â chyllid i'w helpu i ennill cymwysterau gwaith chwarae a gofal plant eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd ym mis Chwefror 2024. Mae'r modiwl wedi'i anelu at weithwyr a myfyrwyr yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar sy'n dymuno dysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithio'n ddwyieithog.

Rhan annatod o'n dull i feithrin darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw ein Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, rhaglen tair blynedd a ariennir sydd ar gael tan fis Mawrth 2025. Mae gan y Rhaglen ddwy ffrwd ariannu benodol, cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr, ac mae ar gael i bob darparwr gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig AGC. Prif amcanion y Rhaglen yw cryfhau a chefnogi seilwaith gofal plant a'i nod yw gwella a meithrin darpariaeth gofal plant newydd a'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu ceisiadau am gyllid cyfalaf mawr yn seiliedig ar faen prawf cymhwysedd lle rhoddir ystyriaeth allweddol i gynlluniau sy'n helpu'n uniongyrchol i ehangu lleoliad cyfrwng Cymraeg neu sy'n ddarparwr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

***Argymhelliad 7***

*Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy gyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr. Dylai nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Gwrthod.** Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i gynnig darpariaeth gofal plant fforddiadwy a hygyrch, a byddwn yn ystyried sut y gellid gwneud hyn fel rhan o gyllideb ddrafft 2025/26. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn yn llawn gan nad oes gennym unrhyw wybodaeth eto am gyllid canlyniadol Barnett nac am y setliad gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2025/26.

Cawsom £12.1m yn 2023/24 a £128.4m yn 2024/25 fel cyllid canlyniadol fel rhan o Ddatganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU. Mae newidiadau i gyllid yn Lloegr ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'n grant bloc drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn pennu'r hyn y dylid gwario'r grant bloc arno. Mater i Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, yw penderfynu sut i ddyrannu cyllid Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cyllid o'r grant bloc, trethi datganoledig a benthyciadau cyfalaf. Pan fydd achos dros ddefnyddio cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio yn unol â'u blaenoriaethau.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd angen i unrhyw benderfyniadau am gyllid yn y dyfodol gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol.

***Argymhelliad 8***

*Er mwyn mynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, dylai Llywodraeth Cymru*:

***A8(a) –*** *Blaenoriaethu'r broses o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed drwy ddyrannu digon o gyllid i hyn gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl, gan osod targed ar gyfer y niferoedd a fydd yn elwa erbyn diwedd mis Mawrth 2026, a darparu adroddiad ar gynnydd i'r Senedd.*

***A8(b) –*** *Gweithio gyda'r sector i ddatblygu llwybr sy'n nodi camau yn y dyfodol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, fel y mae cyllid a chyfyngiadau ymarferol eraill yn eu caniatáu. Nod hirdymor y llwybr hwn ddylai fod i weithio tuag at ddarparu darpariaeth gofal plant gyffredinol.*

***A8(a) – Blaenoriaethu'r broses o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed drwy ddyrannu digon o gyllid i hyn gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl, gan osod targed ar gyfer y niferoedd a fydd yn elwa erbyn diwedd mis Mawrth 2026, a darparu adroddiad ar gynnydd i'r Senedd.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn dwy oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r amcan hwn.

Yn ystod 2023-24 a 2024-25, rydym yn buddsoddi £46 miliwn i ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Rydym yn disgwyl y byddwn yn cefnogi mwy na 9,500 o blant dwy oed ledled Cymru i fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg yn ystod cam 2 (2023/24 and 2024/25) ac rydym yn gwneud cynnydd da i gyflawni hynny.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn wynebu'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol ers datganoli. Mae hyn yn golygu bod angen inni flaenoriaethu'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym. Mae ein setliad ar gyfer 2024/25 yn dal i fod hyd at £700m yn is mewn termau real na'r hyn roeddem yn ei ddisgwyl pan gyhoeddwyd Adolygiad o Wariant 2021 ac mae ein Cyllideb yn  2024/25 £3bn yn is na phe byddai wedi cynyddu yn unol â CDG ers 2010.

Yn anffodus, mae hyn yn golygu nad ydym mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw ddatblygiadau i ofal plant ar hyn o bryd. Cynhelir cylch nesaf y gyllideb ar ddiwedd 2024.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd angen i unrhyw benderfyniadau am gyllid yn y dyfodol gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol.

***A8(b) – Gweithio gyda'r sector i ddatblygu llwybr sy'n nodi camau yn y dyfodol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, fel y mae cyllid a chyfyngiadau ymarferol eraill yn eu caniatáu. Nod hirdymor y llwybr hwn ddylai fod i weithio tuag at ddarparu darpariaeth gofal plant gyffredinol.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo. Mae gan blant hawl gyfreithiol sylfaenol i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel. Gall y ffordd rydym ni, fel cymdeithas, yn darparu ar gyfer babanod a phlant bach effeithio ar eu hapusrwydd, eu llesiant a'u datblygiad cyffredinol. Mae gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyfraniad sylweddol i'w wneud i liniaru effaith anghydraddoldebau, p'un a ydynt ar ffurf hiliaeth, tlodi, anableddau neu ffactorau cymdeithasol eraill fel diffyg cyfleoedd, y gall pob un ohonynt gael effeithiau parhaus ar fywydau unigolion. Rydym yn ymrwymedig i chwalu'r rhwystrau i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael eu cefnogi i gael plentyndod llawn a hapus.

Byddwn yn parhau â'n taith, er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant ar draws y tirlun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd rhoi dull gweithredu o'r fath ar waith yn cymryd amser, ond mae newid yn hanfodol er mwyn i bob baban a phlentyn bach yng Nghymru ffynnu a chael cyfleoedd i gael hwyl, chwarae, dysgu a thyfu.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector fel darparwyr, sefydliadau yn y sector ac awdurdodau lleol i ddatblygu ein dull gweithredu ac i gynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel.

Rydym eisoes wedi nodi ein cynlluniau ar gyfer gofal plant yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg feithrin a gofal plant a ariennir i blant 3 a 4 oed o dan Gynnig Gofal Plant Cymru. O fis Medi 2022, ehangodd Llywodraeth Cymru y cynnig hwn i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant, gan gefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn ein Rhaglen Lywodraethu. Yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi hynny, cafodd 675 o deuluoedd ychwanegol eu cefnogi drwy'r Cynnig.

Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog tuag at ehangu'r cymhwystra ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg drwy gyflwyno gofal plant o ansawdd uchel i blant dwy oed ledled Cymru drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg. Rydym yn gwneud hyn fesul cam, gan ddechrau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a chan ystyried capasiti'r sector gofal plant ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Cynnig Gofal Plant a rhaglen Dechrau'n Deg ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud cynnydd pellach o ran ein hymrwymiad i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.

**Goblygiadau Ariannol** – Darperir ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun/map ffordd ar gyfer ehangu gofal plant ymhellach o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth ymhellach y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol.

***Argymhelliad 9***

*Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar frys i wella cynaliadwyedd ariannol y sector drwy:*

***A9(a) –*** *Gwneud cyhoeddiad ar y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26 erbyn diwedd mis Hydref 2024. Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth rydym wedi'i derbyn, rydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cynnydd hwn.*

***A9(b) –*** *Symud i adolygiadau blynyddol o gyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn yn cymryd ymagwedd hyblyg sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol megis chwyddiant, cyfraddau tâl a chynhyrchiant.*

***A9(a) – Gwneud cyhoeddiad ar y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26 erbyn diwedd mis Hydref 2024. Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth rydym wedi'i derbyn, rydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cynnydd hwn.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Gwrthod.** Gan ystyried yr amserlen bresennol ar gyfer cynnal adolygiad o'r gyfradd a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru, yn anffodus nid oes modd i ni wneud unrhyw gyhoeddiad erbyn diwedd mis Hydref. Cafodd y gyfradd ei hadolygu ddiwethaf yn 2021, ac ymrwymwyd i'w hadolygu eto ar ôl tair blynedd. Mae'r adolygiad presennol yn cynnwys dadansoddiad o ddata ar ffioedd a gyflwynwyd gan ddarparwyr gofal plant a chwarae i Arolygiaeth Gofal Cymru, arolwg o ddarparwyr ar eu hincwm a'u gwariant a chyflwyniadau gan gyrff yn y sector.

Mae'r adolygiad yn ystyried ffactorau yn cynnwys chwyddiant, cyflogau staff a chanlyniadau gwasanaeth. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried yr amserlenni priodol ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol. Gan fod tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i dadansoddi'n barhaus, ni fyddai'n briodol rhoi rhagor o wybodaeth am ganlyniad posibl yr adolygiad ar hyn o bryd.

Bydd unrhyw newidiadau i'r gyfradd bresennol o £5.00 yr awr fesul plentyn yn weithredol o fis Ebrill 2025. Caiff y newid hwn ei gyhoeddi yn unol â chytuno ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o'r gyfradd, ond drwy wrthod yr argymhelliad hwn, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

***A9(b) – Symud i adolygiadau blynyddol o gyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn yn cymryd ymagwedd hyblyg sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol megis chwyddiant, cyfraddau tâl a chynhyrchiant.***

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor:** Rydym yn cydnabod yr angen i helpu i greu amgylchedd lle y gall y sector ffynnu a thyfu er mwyn inni gyflawni ein huchelgeisiau a nodwyd yn ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Ar ôl ystyried safbwyntiau'r sector, byddwn yn newid i gynnal adolygiadau blynyddol ar ôl i'r adolygiad bob tair blynedd presennol gael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni; bwriedir i hyn helpu'r sector i gynllunio a gwella cynaliadwyedd. Bydd angen inni ddarparu ar gyfer yr adolygiadau blynyddol o fewn ein hadnoddau presennol ac, o ganlyniad, gall hyn effeithio ar y fethodoleg y gallwn ei mabwysiadu. Dylid hefyd nodi y bydd rhoi canfyddiadau'r adolygiadau ar waith yn amodol ar ystyried y gyllideb flynyddol.

**Goblygiadau Ariannol** – Darperir ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal yr adolygiadau blynyddol o fewn y cyllidebau presennol.